**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10am Yn Nhŷ Rheidol, Aberystwyth ddydd Iau 7 Medi 2023**

**Yn Bresennol:** Cath Smith (Cadeirydd)
Gareth Wynn Davies, Rhys Davies (drwy Teams), Jack Evershed, Hugh Hesketh-Evans, Mike Humphreys, Prys Morgan, Emlyn Roberts, Vicki Spencer-Francis

**Trwy Wahoddiad:** Maria Richards, Llywodraeth Cymru (trwy Teams)

**Y Swyddogion Gweithredol yn bresennol:** Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Rachael Madeley-Davies (Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol)
Laura Pickup (Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau)
Bryan Regan (Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol)

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawyd pawb i gyfarfod y Bwrdd gan y Cadeirydd.

Yn ystod y cyfnod, roedd y Cadeirydd wedi cynrychioli HCC mewn nifer o ddigwyddiadau a chyfarfodydd yn Sioe Frenhinol Cymru.

Diolchodd y Cadeirydd yn ffurfiol i Aelodau'r Bwrdd a oedd wedi cynrychioli HCC yn y digwyddiadau a a ganlyn:

16 – 17 Awst: Sioe Sir Benfro - John T Davies
17 Awst: Sioe Fflint a Dinbych – Rhys Davies
23 Awst: Sioe Sir Meirion – Emlyn Roberts.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Nodwyd ymddiheuriadau gan Aelodau'r Bwrdd John T Davies (ymunodd â'r cyfarfod ar gyfer Eitem 11), Caroline Sanger-Davies a Gwyn Howells, Prif Weithredwr, sydd yn absennol o hyd oherwydd salwch.

Yn absenoldeb y Prif Weithredwr, nodwyd bod y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol yn parhau i fod yn Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro.

3. **Datganiadau o Fuddiannau**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau newydd.

4. **I gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 6 Gorffennaf 2023 (HCC 1147)**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod uchod wedi eu darllen, cawsant eu derbyn gan y Bwrdd a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Materion yn codi**

*Adolygiad Diwedd-Blwyddyn o Gynllun Gweithredol HCC 2022 / 2023*
Nodwyd bod dwy set ddata wedi'u derbyn a bod angen eu dilyn i fyny, gan hysbysu'r Bwrdd unwaith y bydd y gwaith hwnnw wedi ei gwblhau.

**Gweithredu Parhaus: Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol**

*Prif Swyddog Milfeddygol newydd Cymru, Dr Richard Irvine – Cyflwyniad i'r Bwrdd*

Nodwyd y byddai Dr Irvine yn debygol o fod ar gael ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ar 11 Ionawr 2024. Fodd bynnag, nid oedd hyn wedi'i gadarnhau'n ffurfiol. Byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn mynd ar drywydd hyn gyda swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol.

**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth**

*Ardoll*

Cadarnhaodd y Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol nad oedd unrhyw weithredu mewn perthynas â chyflwyno papur gweithdrefnol i'r Bwrdd ar fecanwaith cynyddu'r Ardoll. Byddai'r Bwrdd wedi gallu gweld ffigurau chwyddiant Tachwedd 2023 erbyn cyfarfod y Bwrdd ar 11 Ionawr 2024 a byddai hynny'n cyfrannu at y trafodaethau wrth ystyried cyfraddau'r Ardoll ar gyfer 2024/2025.

**Gweithredu: Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol**

6. **Adroddiadau HCC**

a. *Adroddiad Darparu (HCC 1148)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen a chafodd gweithgareddau allweddol HCC eu hamlygu gan yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth.

- Roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Ymgyrch Cig Eidion Cymru PGI a byddai'r Bwrdd yn cael diweddariad yng nghyfarfod Teams y Bwrdd ar 5 Hydref 2023.

  **Gweithredu: Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau**

- Cytunwyd i friffio'r Bwrdd ar waith Eiriolaeth ac Amddiffyn HCC yn y cyfarfod ar 8 Tachwedd 2023.

  **Gweithredu: Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau**

- Roedd crynodeb o ganlyniadau Prosiect Ansawdd Cig Cig Oen Cymru (Y Rhaglen Datblygu Cig Coch) wedi'i gyhoeddi ac roedd ar gael ar ffurf llyfryn printiedig ac yn electronig. Byddai'r crynodeb yn cael ei roi ar Sharepoint er gwybodaeth i'r Bwrdd.

  **Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth**

b. *Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 30 Mehefin 2023 (HCC 1149)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol.

Nododd y Bwrdd y sefyllfa ariannol bresennol.

*HCC – HMRC: Statws TAW*

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol ddiweddariad am yr uchod i'r Bwrdd.

- Atgoffwyd y Bwrdd y gallai HCC golli ei statws TAW o 1 Ebrill 2024. Roedd hyn yn peri pryder a byddai'n cael effaith ar weithgareddau HCC yn y dyfodol. Byddai angen cynnwys y mater yn y trafodaethau ar 8 Tachwedd 2023.

- Cytunwyd i roi diweddariad i swyddogion yng nghyfarfod nesaf Llywodraeth Cymru / Llywodraethiant HCC ar 20 Medi 2023.

**Gweithredu: Y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol**

c. *Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 1150)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

Roedd Bwletin y Farchnad yn cael ei rannu â rhanddeiliaid ar draws y gadwyn gyflenwi ac roedd yn cael ei werthfawrogi gan y diwydiant.

d. Digwyddiadau i ddod gan gynnwys cynlluniau amlinellol ar gyfer Cynhadledd HCC ddydd Iau *9 Tachwedd 2023 (HCC 1151)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

Roedd y Swyddogion Gweithredol wrthi'n cynllunio ar gyfer cyfnod prysur iawn o ddigwyddiadau hyd at y Ffair Aeaf.

Cyflwynodd y Pennaeth Cysylltiadau Strategol a Marchnata bapur a chrynhodd gynlluniau amlinellol ar gyfer Cynhadledd Flynyddol HCC i'w chynnal ar 9 Tachwedd 2023.

Cytunodd y Bwrdd â'r cynigion amlinellol cychwynnol a byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu gan y Swyddogion Gweithredol yn niweddariad Teams y Bwrdd ar 5 Hydref 2023.

**Gweithredu: Y Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau**

e. *Ôl-drafodaeth ynghylch presenoldeb HCC yn Sioe Frenhinol Cymru 24 – 27 Gorffennaf 2023*

Hon oedd y flwyddyn gyntaf i HCC gael stondin gyfunol o ran presenoldeb defnyddwyr a ffermwyr / rhanddeiliaid.

Gwahoddwyd y Bwrdd i anfon unrhyw adborth pellach at y Pennaeth Marchnata a Chysylltiadau.

Diolchodd y Bwrdd i'r holl staff am eu cefnogaeth a'u gwaith caled cyn, yn ystod ac ar ôl y sioe.

f. *Derbyn diweddariad am Aelodaeth Grŵp Arloesedd ac Ymchwil Cynaliadwy HCC*

Dywedodd Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol fod gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â'r aelodaeth ar gyfer yr uchod.

Ymadawodd Maria Richards, Llywodraeth Cymru, â'r cyfarfod.

7. **Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol ar gyfer 2022/2023**

a. *I dderbyn crynodeb o'r pwyntiau allweddol yn y Datganiadau Ariannol 2022 / 2023 (HCC 1152)*

b. *I dderbyn a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol ar gyfer 2022 / 2023 (HCC 1153)*

Dywedodd y Pennaeth Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol y byddai adroddiad Archwilio Cymru, yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg, yn cael ei ystyried gan y Bwrdd yng nghyfarfod 8 Tachwedd 2023.

8. **Papur er gwybodaeth: Eco Labelu (HCC1154)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

9. **Unrhyw fater arall**

Nid oedd unrhyw fater arall.

10. **Dyddiadau cyfarfodydd i ddod**

Diweddaru'r Bwrdd drwy gyfrwng Teams – Dydd Iau 5 Ebrill 2023 am 9.30am
Cyfarfod o Fwrdd HCC – Dydd Mercher 8 Tachwedd 2023. Yr amser i'w drefnu.

**DILYNWYD GAN SESIWN BWRDD CAEEDIG HCC**

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**